



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

Cais am Dystiolaeth – Adroddiad ar y
Grynodeb o Ganfyddiadau Allweddol

Awst 2019

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Diben	3
<i>Y camau nesaf</i>	3
Cefndir	4
Arolygiaeth Gofal Cymru	4
<i>Gwarchod Plant</i>	4
<i>Gofal Dydd</i>	4
Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010	4
Cais am Dystiolaeth	5
Crynodeb o'r ymatebion	5
Materion Allweddol.....	6
Gwarchod Plant	6
<i>Cwmpas y cais am dystiolaeth</i>	6
<i>Crynodeb o'r Ymatebion i Erthygl 3</i>	7
Crynodeb o'r Ymatebion i Erthygl 6	11
Gofal Dydd	14
<i>Cwmpas y cais am dystiolaeth</i>	14
Crynodeb o'r Ymatebion i Erthygl 13	15
Crynodeb o'r Ymatebion i Erthygl 15	16
Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ar Erthyglau ychwanegol o'r Gorchymyn	18
Casgliadau	22
ATODIAD A Rhestr o Randdeiliaid	26
ATODIAD B Rhestr o Eithriadau yn y Gorchymyn	27

CYFLWYNIAD

Diben

1. Diben y cais am dystiolaeth oedd ceisio barn ar Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010¹ (“y Gorchymyn”), sy’n pennu eithriadau i’r hyn sy’n gynwysedig yn y diffiniadau o “gwarchod plant” neu “gofal dydd i blant” at ddibenion Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i roi sylwadau ar Erthyglau 3 a 6 o Ran 2 o’r Gorchymyn sy’n ymwneud â gwarchod plant ac Erthyglau 13 ac 15 o Ran 3 o’r Gorchymyn sy’n ymwneud â gofal dydd.
2. Mae’r cais am dystiolaeth yn cyflwyno ei ganfyddiadau i’r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn yr ymrwymiad a wnaed gan y cyn-Weinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol i adolygu’r gorchymyn hwn er mwyn helpu i lywio penderfyniadau polisi mewn perthynas â’r Gorchymyn yn y dyfodol.
3. Cynhaliwyd y cais am dystiolaeth am 12 wythnos rhwng 20 Rhagfyr 2018 a 20 Mawrth 2019.

Y Camau Nesaf

4. Mae’r Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i gymryd camau i ddarparu rhagor o wybodaeth i rieni mewn perthynas â’r gwahaniaeth rhwng darpariaeth gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig. Caiff y llyfryn *Dewis Gofal Plant* a gafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a’i ddosbarthu drwy’r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, ei adnewyddu gyda’r bwriad o godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o rai o’r gwahaniaethau hyn. Bydd y Dirprwy Weinidog hefyd yn anelu at gyhoeddi ymgynghoriad llawn ar y Gorchymyn cyn diwedd 2020.

¹ O.S. 2010/2339 (W. 233).

CEFNDIR

Arolygiaeth Gofal Cymru

5. Caiff gwasanaethau gwarchod plant, gofal dydd a darpariaeth chwarae i blant hyd at 12 oed eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ran Gweinidogion Cymru.
6. Mae hyn yn gymwys lle y mae angen cofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010² ("y Mesur") fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016³.
7. Mae gofal plant a reoleiddir yn dod o dan ddau gategori, sef gwarchod plant a gofal dydd.

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

8. Mae adran 19(2) a (3) o'r Mesur yn diffinio "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant". Mae adrannau 21 a 23 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i warchodwr plant a pherson sy'n darparu gofal dydd i blant gofrestru â Gweinidogion Cymru (AGC). Mae adran 19(4) a (5) o'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru nodi amgylchiadau lle mae person, y byddai ei weithgarwch fel arall yn dod o dan un o'r diffiniadau, wedi'i eithrio rhag hynny, ac felly nad yw'n ofynnol iddo gofrestru.
9. Cafodd y pwerau yn adran 19 o'r Mesur eu harfer wrth wneud Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2010 ("y Gorchymyn"), sy'n pennu eithriadau i'r hyn sy'n gynnwysedig yn y diffiniadau o "gwarchod plant" neu "gofal dydd i blant" at ddibenion Rhan 2 o'r Rheoliadau. Ceir rhestr lawn o'r eithriadau yn y Gorchymyn yn Atodiad B.

Gwarchod Plant

10. Mae adran 19(2) o'r Mesur yn diffinio "gwarchodwr plant" yn berson *'sy'n gofalu am blentyn o dan 12 oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr'*.
11. Mae adran 21 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant fod wedi'i gofrestru â Gweinidogion Cymru (AGC) oni bai bod yr amgylchiadau lle mae'r person yn gofalu am blentyn yn dod o dan un o'r eithriadau a ddisgrifir yn erthyglau 3 i 7 o'r Gorchymyn ac na ystyrir felly bod y person yn gweithredu fel "gwarchodwr plant" at ddibenion y Mesur ac, o ganlyniad, nid yw'n gorfod cofrestru â Gweinidogion Cymru.

²Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

³Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016

Gofal Dydd

12. Mae adran 19(3) o'r Mesur yn diffinio "darparwr gofal dydd" yn berson 'sy'n darparu gofal dydd i blant hyd at 12 oed os darperir gofal i'r plant mewn mangre annomestig ar unrhyw adeg'.
13. Mae adran 23 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu darparu gofal dydd i blant fod wedi'i gofrestru â Gweinidogion Cymru (AGC) oni bai bod yr amgylchiadau lle mae'n darparu gofal dydd yn dod o dan un o'r eithriadau a ddisgrifir yn erthyglau 9 i 16 o'r Gorchymyn ac na ystyrir felly bod y person yn gweithredu fel darparwr "gofal dydd i blant" at ddibenion y Mesur ac, o ganlyniad, nid yw'n gorfod cofrestru â Gweinidogion Cymru.

CAIS AM DYSTIOLAETH

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

14. Cynhaliwyd cais am dystiolaeth 12 wythnos llawn ar Orchymyn 2010 rhwng 20 Rhagfyr 2018 a 20 Mawrth 2019.
15. Cyflwynwyd y cais am dystiolaeth yn electronig i amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys swyddogion polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru, y rhai sydd â diddordeb mewn gwarchod plant a gofal dydd, yn benodol sefydliadau yn y sector gwarchod plant a gofal dydd, awdurdodau lleol, darparwyr gwarchod plant a gofal dydd a rhieni. Ceir rhestr lawn yn **Atodiad A**. Roedd y cais am dystiolaeth hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd pawb yr ymgynghorwyd â nhw yn rhanddeiliaid yn sector gofal plant i raddau amrywiol.
16. Cafwyd ymatebion i'r cais am dystiolaeth gan y categorïau canlynol:
 - **Awdurdodau Lleol**
 - **Darparwyr Gofal Dydd**
 - **Gwarchodwyr Plant**
 - **Sefydliadau Elusennol sy'n cefnogi Gofal Plant/y Blynyddoedd Cynnar/Chwarae/Meithrinfeydd/Clybiau Ysgol**
 - **Eglwysi Ynghyd yng Nghymru**
 - **Darparwr Addysg Gynradd Breifat**
 - **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru**
 - **Cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus**
17. Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion. Roedd rhai o'r ymatebion yn gasgliad o sylwadau gan randdeiliad mewn sector penodol ac nid oedd pob un o'r ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ar bob cwestiwn a ofynnwyd yn y ddogfen cais am dystiolaeth. At hynny, ni wnaeth rhai ymatebwyr roi ateb cadarnhaol na negyddol uniongyrchol i bob cwestiwn. O dan yr amgylchiadau hyn, gwnaed pob ymdrech i ddehongli a

chynnwys safbwynt bwriadedig yr ymatebwr yn y ffigurau a ddyfynnwyd yn y crynodeb hwn.

18. Mae'r holl ddyfyniadau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr iaith wreiddiol oni nodir yn wahanol.

Materion allweddol a nodwyd o'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth

19. Codwyd nifer o bryderon a materion gan ymatebwyr yn eu hymatebion i'r cais am dystiolaeth. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

Gwarchodwyr plant

- Mae angen diwygio Erthygl 3 o'r Gorchymyn sy'n ymwneud â gwarchod plant, er mwyn sicrhau bod yr Erthygl yn unol â datblygiadau polisi diweddar mewn perthynas â gwarchodwyr plant cofrestredig yn gofalu am blant sy'n perthyn iddynt, fel y nodir ym mharagraff 24;
- Gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynglŷn â'r diffiniad o'r term 'perthynas';

Gofal Dydd

- Mae angen eglurder ynghylch Erthygl 13. Mae ymatebwyr wedi codi pryderon ynghylch diogelu a hefyd wedi nodi bod dryswch cyffredinol ynghylch p'un a yw'r erthygl hon yn ymwneud â gwasanaethau gwarchod plant mewn gwesty/tŷ llety yn unig ai peidio;
- Mae Erthygl 15 wedi caniatáu i rai lleoliadau gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ac yn ystod gwyliau weithredu heb gofrestru ag AGC er mai eu prif ddiben yw darparu gofal plant. I rai, mae hyn yn codi pryderon ynghylch diogelu;
- Gall rhieni sy'n darparu gofal dydd gael gafael ar gyllid gofal plant mewn perthynas â'u plant eu hunain os caiff y gofal ei ddarparu y tu allan i gartref y plentyn ond nid yw gwarchodwyr plant yn gymwys i gael y Cynnig ar gyfer eu plentyn eu hunain os ydynt yn gofalu amdanynt yn y cartref. Mae rhai yn ystyried bod hyn yn annheg.

Gwarchod plant a gofal dydd

- Nid oedd rhai ymatebwyr yn glir ynghylch y rhesymeg dros y 'rheol dwy awr' ym maes gwarchod plant a gofal dydd na lle mae'r cydbwysedd rhwng cofrestru a diogelu cymesur.

Gwarchod Plant

Cwmpas y cais am dystiolaeth

20. Ceisiwyd barn y rhai y byddai unrhyw newidiadau a wneir i'r Gorchymyn yn effeithio arnynt, neu'r rhai sydd â diddordeb penodol ym meysydd gwarchod plant er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau polisi hyddysg o ran unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn.
21. Roedd y cais am dystiolaeth yn canolbwyntio ar erthyglau 3 a 6 o Ran 2 o'r Gorchymyn sy'n ymwneud â gwarchodwyr plant.
22. Mae **Rhan 2** o'r Gorchymyn yn ymwneud â gwarchod plant, ac mae erthygl 2 yn nodi *'nid yw person sy'n gofalu am blentyn o dan 12 oed mewn mangre ddomestig er mwyn gwobr yn gweithredu fel gwarchodwr plant at ddibenion Rhan 2 o'r Rheoliadau, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr erthyglau canlynol, 3 i 7'*
23. Fel y nodir yng nghwestiynau'r cais am dystiolaeth ar dudalennau 8 i 10, ceisiwyd barn ar erthygl 3 o Ran 2 o'r Gorchymyn sy'n nodi nad yw'n ofynnol i warchodwr plant gofrestru os yw'n warchodwr plant ar blentyn sy'n perthyn iddo, ac erthygl 6 o Ran 2 o'r Gorchymyn sy'n nodi nad yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am y plentyn am gyfnod rhwng 6pm ar un diwrnod ac sy'n dod i ben erbyn 2am y diwrnod canlynol.
24. Drwy weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gynnar, cafodd Llywodraeth Cymru wybod am broblem bosibl lle nad ystyrir bod gwarchodwyr plant cofrestredig a oedd yn gofalu am blant a oedd yn perthyn iddynt, yn gweithredu fel gwarchodwr plant o ganlyniad i eiriad y Gorchymyn ac felly na ellir cael cyllid o dan y Cynnig.
25. Ym mis Mehefin 2018, ysgrifennodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y pryd at Aelodau'r Cynulliad er mwyn eu hysbysu o newid i'r polisi yn ymwneud â gwarchodwyr plant yn cael cyllid o dan y Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant a oedd yn perthyn iddynt. Roedd hyn yn deillio o adborth gan y sector a gan rieni a oedd yn mynegi eu pryderon ynghylch gwarchodwyr plant yn methu â chael cyllid o dan y Cynnig i ofalu am berthynas. O ganlyniad, cafodd y polisi ynghylch ariannu gwarchodwyr plant i ddarparu gofal i berthnasau ei adolygu, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r sector a phwyso a mesur manteision ac anfanteision unrhyw newidiadau.
26. Cafodd canllawiau ar Weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn Gynnar eu diwygio i gynnwys gwarchodwyr plant sy'n gofalu am berthynas. Daeth y newidiadau hyn i rym o fis Medi 2018, er mwyn cyd-daro â'r gwaith o ymestyn cwrpas y Cynnig. Mae'r canllawiau yn nodi bod gwarchodwyr plant sy'n gofalu am berthynas yn gymwys i gael cyllid drwy'r Cynnig – cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru ag AGC a bod y gofal yn cael ei ddarparu y tu allan i gartref y plentyn.
27. Mae Erthygl 6 o'r Gorchymyn yn eithrio gwarchodwyr plant o'r gofyniad i gofrestru os ydynt yn darparu gofal rhwng 6pm a 2am yn unig. Felly, nid ydynt yn gymwys i gael cyllid o dan y Cynnig o dan yr amgylchiadau hyn. Roeddem yn awyddus i ddeall y farn ar y broblem bosibl hon.

Erthygl 3

(1) Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw—

(i) yn rhiant neu'n berthynas i'r plentyn; neu,


(ii) yn rhiant maeth ar gyfer y plentyn.

(2) Yn yr erthygl hon, mae "rhiant maeth" ("foster parent") yn cynnwys person y lleolwyd plentyn gydag ef, gan awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu berson sy'n maethu plentyn yn breifat.

Crynodeb o'r Ymatebion i Erthygl 3

Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod angen diwygio'r cymal hwn?

28. Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r 14 o ymatebion, roedd 5 (36%) o'r farn nad oedd angen diwygio'r erthygl ac roedd 9 (64%) o'r farn bod angen diwygio'r erthygl.



29. Nododd ymatebwyr a oedd o'r farn nad oedd angen diwygio'r erthygl, ei fod yn briodol fel y mae.

30. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod angen diweddarau'r erthygl i adlewyrchu sefyllfa bolisi bresennol Llywodraeth Cymru o ran darparwyr gofal plant yn darparu gofal ar gyfer perthnasau fel y'i nodir yn y Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar y Cynnig Gofal Plant⁴ a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018. Mae'r canllawiau'n nodi 'gall gofaluwr plant cofrestredig weithredu'r Cynnig Gofal Plant yn gysylltiedig â phlentyn sydd hefyd yn berthynas, cyhyd â bod y gofal dan sylw yn digwydd y tu hwnt i gartref y plentyn.' Cafodd canllawiau'r Cynnig Gofal Plant eu diwygio er mwyn sicrhau y gellir ystyried gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n gofalu am blant sy'n perthyn iddynt yn warchodwr plant i'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn cymryd rhan yn y Cynnig.


⁴ Y Cynnig Gofal Plant – Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar Medi 2018 <https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/180702-early-implementer-september-2018-cy.pdf>

31. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai fod yn bosibl i berthynas gael ei ystyried yn warchodwr plant ar gyfer plant sy'n perthyn iddo, ar yr amod nad yw'r gofal plant y mae'n ei ddarparu yng nghyfeiriad y plentyn sy'n perthyn iddo, a bod gan y gwarchodwr plant fusnes gwarchod plant â pholisi drws agored, sy'n cynnwys plant nad yw'n perthyn iddynt.
32. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai fod yn bosibl i riant gael ei ystyried yn warchodwr plant mewn berthynas â'r gofal a ddarperir i'w blentyn yng nghartref y plentyn, am fod y 'gwaharddiad' ar blant sy'n perthyn yng Nghymru yn unigryw i warchodwyr plant. Caniateir i unigolion sy'n gweithio mewn meithrinfa neu leoliad cyn ysgol, neu sy'n berchen ar un, hawlio cyllid o dan y Cynnig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt, gan gynnwys eu plant eu hunain, felly teimlwyd bod diffyg cydraddoldeb yn y sector.
33. Nododd rhai ymatebwyr na ddylai fod yn orfodol i aelodau o'r teulu gofrestru fel gwarchodwyr plant er mwyn gallu darparu gofal plant wrth ddarparu gofal i berthynas os nad oeddent yn cael eu gwobrwyo'n ariannol am wneud hynny.
34. Nododd Gofal Cymdeithasol Cymru yr hoffai weld asiantaethau Maethu Annibynnol yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o 'rhiant maeth' yn Rhan 2 o'r Gorchymyn er mwyn sicrhau cysondeb am fod y Gorchymyn eisoes yn cynnwys lleoliadau drwy awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a'r rhai sy'n maethu'n breifat.
35. Gwnaeth ymatebwyr hefyd nodi bod angen canllawiau clir ar yr hyn a olygir wrth y term 'perthynas'.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu bod rhywun yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'n ddarparwr cofrestredig sy'n gofalu am blant, yn cynnwys plant y gall fod yn perthyn iddynt?

36. Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r 14 o ymatebion, nid oedd 2 (14%) yn cytuno â'r diffiniad o warchodwr plant fel y'i disgrifir yng nghwestiwn 2, ac roedd 12 (86%) o'r farn bod y diffiniad yn gywir.

Ymatebion i Erthygl 3 – Cwestiwn 2




37. Ni wnaeth yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r diffiniad o warchodwr plant yng nghwestiwn 2 sylwadau ychwanegol ar hyn.
38. Nododd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r diffiniad o warchodwr plant yng nghwestiwn 2 fod yn *rhaid* i warchodwyr plant ofalu am blant heblaw eu plant eu hunain neu blant sy'n perthyn iddynt er mwyn cael eu hystyried yn warchodwyr plant, ac felly'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus. Ni ddylent ddarparu gofal ar gyfer eu plentyn eu hunain na phlant sy'n perthyn iddynt yn unig.
39. Yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd Cyngor Sir Ceredigion ei fod yn cytuno â'r disgrifiad yng nghwestiwn 2 ar yr amod bod y plant sy'n perthyn i'r gwarchodwr plant wedi'u cynnwys yn y gymhareb a bod y gwarchodwr plant yn dilyn y broses gyfreithiol h.y. llunio contractau, anfonebu ac ati. Mae'r gwarchodwr plant yn trin unrhyw berthynas fel unrhyw blentyn arall y mae'n gofalu amdano. Os mai plentyn ei hun yw'r perthynas a bod y gofal yn cael ei ddarparu yn ei gartref ei hun, efallai na chaiff ei ystyried yn warchodwr plant y plentyn hwnnw.

Cwestiwn 3: Os ydych chi, a ydych yn credu y dylid gosod unrhyw gyfyngiadau ar hyn?

40. Cafwyd 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r 11 o ymatebion, nid oedd 2 (18%) o'r farn y dylid gosod cyfyngiadau ar y diffiniad o warchodwr plant yng nghwestiwn 2, ac roedd 9 (82%) o'r farn y dylid rhoi cyfyngiadau ar waith.

Ymatebion i Erthygl 3 – Cwestiwn 3



41. O'r ymatebwyr a oedd o'r farn na ddylid ychwanegu cyfyngiadau, gwnaethant nodi cyhyd â bod darparwyr yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r polisiau cyfredol mewn perthynas â chymarebau cyffredinol, dylai hyn fod yn ddigon.
42. Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid ychwanegu cyfyngiadau at y diffiniad o warchodwr plant yng nghwestiwn 2, na ddylai gwarchodwr plant fod yn gallu hawlio arian cyhoeddus ar gyfer gofal plant mewn perthynas â'i blentyn ei hun, ond dylai fod yn gallu darparu gofal plant ar gyfer ei blentyn ei hun mewn lleoliad busnes lle y mae hefyd yn darparu gofal plant i blant nad ydynt yn perthyn iddo ac, yn fwy penodol, ni ddylai'r gwasanaeth gwarchod plant y mae'n ei ddarparu fod yng nghyfeiriad cartref y plentyn.
43. Cytunodd ymateb gan un awdurdod lleol y dylai fod cyfyngiadau wedi'u hatodi i'r erthygl, ac awgrymodd y gellid diwygio'r geiriad i nodi y gall rhieni, rhieni maeth a pherthnasau (gyda diffiniad clir o 'berthynas plentyn') ddewis p'un a ydynt yn cofrestru i fod yn warchodwr plant. Pe baent yn cofrestru i fod yn warchodwr plant, ni fyddent yn gweithredu fel gwarchodwyr plant ar gyfer eu plant eu hunain, ond byddent yn gweithredu felly ar gyfer plant pobl eraill ac felly na fyddent yn hawlio o dan gynlluniau megis y Cynnig Gofal Plant neu ofal plant di-dreth ar gyfer y gofal y maent yn ei ddarparu i'w plant eu hunain.
44. Yn ei ymateb i'r cwestiwn, cytunodd PACEY Cymru y dylid diwygio'r erthygl i adlewyrchu sefyllfa bolisi ddiwygiedig Llywodraeth Cymru, ac awgrymodd y dylid ychwanegu'r cyfyngiadau canlynol at yr erthygl:

Erthygl 3

Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw—

(i) yn rhiant, neu'n berthynas sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn

(ii) yn rhiant maeth ar gyfer y plentyn.

(iii) yn berthynas sydd wedi'i gofrestru fel gwarchodwr plant yn yr un cyfeiriad preswyl â'r plentyn


45. Mae PACEY Cymru yn nodi ei fod o'r farn bod digon o drefniadau diogelu eisoes ar waith er mwyn sicrhau na fyddai Llywodraeth Cymru yn 'talu rhieni i fod yn rhieni' pe câi'r newid hwn ei wneud i'r Gorchymyn.

Erthygl 6

Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am y plentyn am gyfnod nad yw'n cychwyn tan ar ôl 6pm ar unrhyw un diwrnod ac sy'n dod i ben cyn 2am y diwrnod canlynol.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu y dylid diwygio'r cymal hwn?

46. Cafwyd 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r 14 o ymatebion, roedd 1 (7%) o'r farn nad oedd angen diwygio'r erthygl ac roedd 13 (93%) o'r farn bod angen diwygio'r erthygl.



47. Nododd yr ymatebwr a oedd o'r farn bod angen diwygio'r erthygl, fod gwarchodwyr plant ond yn gweithredu yn ystod y dydd fel arfer.
48. Ar y cyfan, cytunodd yr ymatebwyr y dylid diwygio'r erthygl hon er mwyn sicrhau y gallai personau sy'n darparu gwasanaethau gwarchod plant gyda'r nos/yn ystod y nos (ac felly'n darparu gwasanaeth gwerthfawr o ran diwallu anghenion gofal plant rhieni sy'n gweithio sifftiau gyda'r nos/yn ystod y nos) gofrestru fel gwarchodwr plant. Byddai hyn, yn ei dro, yn golygu y byddai rhieni plant sy'n cael gofal o dan amgylchiadau o'r fath yn gallu manteisio ar Ofal Plant Di-Dreth a'r Cynnig Gofal Plant. Teimlwyd hefyd y byddai'n bwysig nodi y byddai'n rhaid i'r gwasanaeth gwarchod plant hwn gael ei gynnal y tu allan i gartref y plentyn er mwyn gwahaniaethu rhwng gwarchod plant a gwarchod plant yn y cartref (*babysitting*). Nododd ymatebwr, nid yn unig y byddai diwygio'r erthygl hon yn galluogi rhieni i gael gafael ar gyllid cyhoeddus ar gyfer gofal plant, y byddai hefyd yn helpu i sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth gan y byddai angen i unrhyw warchodwr plant sy'n gofalu am blentyn yng nghyfeiriad y gwarchodwr plant felly gael ei reoleiddio a'i arolygu.


49. Cytunodd Blynyddoedd Cynnar Cymru fod angen diwygio'r erthygl hon er mwyn caniatáu i warchodwyr plant gofrestru i ddarparu gofal plant rhwng 6pm a 2am ar gyfer rhieni sy'n gweithio sifftiau yn ystod y nos, ond dylai hyn fod ar yr amod na ddylai'r gofal plant hwn gael ei gynnal yng nghyfeiriad cartref y plentyn. Roedd o'r farn y byddai hyn yn mynd i'r afael â'r ffaith mai gofal plant yw gofal plant ni waeth ble y caiff ei ddarparu.
50. Cytunodd nifer o awdurdodau lleol fod angen diwygio'r erthygl hon, roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth yn cynnwys:

“Oes – mae person yn gweithredu fel gwarchodwr plant ni waeth pa amser o'r diwrnod y mae'n darparu ei wasanaethau. Mae angen nodi'n glir bod hyn yn ymwneud â gofal a ddarperir gan warchodwyr plant yn eu cartrefi eu hunain”.

“Mae angen darparu gofal plant mwy hyblyg, felly bydd gan warchodwyr plant ddewis o ran y ffordd y maent yn gweithredu eu darpariaeth, a bydd hyn yn rhoi cyfle i brofi'r farchnad. Bydd gallu gweithredu fel gwarchodwr plant cofrestredig yn galluogi rhieni, a all fod yn gweithio sifftiau, yn hwyr gyda'r nos neu ar benwythnosau, i gael gafael ar gyllid er mwyn helpu gyda chostau gofal plant. Os yw gofal yn ystod yr oriau hyn yn mynd y tu hwnt i'r rheol 1 awr 59 munud, yna dylai cofrestriad fod ar waith.”

Cwestiwn 2: Ydych chi'n credu y dylai gwarchodwyr plant ddarparu gwasanaeth sydd ond yn gweithredu ar ôl 6pm (neu y byddent am wneud hynny)?

51. Cafwyd 13 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. O'r 13 o ymatebion, nid oedd 1 (8%) yn cytuno â chwestiwn 2 ac roedd 12 (92%) yn cytuno â chwestiwn 2.



52. Ni wnaeth yr ymatebwr nad oedd yn cytuno â chwestiwn 2 unrhyw sylwadau pellach ar hyn.

53. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y dylai gwarchodwyr plant fod yn gallu (neu efallai y byddent am) darparu gwasanaeth sydd ond yn gweithredu ar ôl 6pm. Gwnaethant gytuno y byddai angen i warchodwyr plant gael eu cofrestru i ddarparu gofal plant ar ôl 6pm, a byddai hyn hefyd o fudd i'r rhieni hynny sy'n gweithio sifftiau gyda'r nos/yn ystod y nos gan y byddai'n caniatáu iddynt fanteisio ar gyllid cyhoeddus megis y Cynnig Gofal Plant.

54. Yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd Cyngor Sir Caerffili:

“Gyda'r nifer gynyddol o weithwyr yn gwneud gwaith sifft, gall fod angen gofal plant ar rieni yn ystod y nos. Dylai fod opsiwn i'r rhieni hyn gael gafael ar ofal plant diogel a chofrestredig sy'n cael ei ddarparu gan ddarparwyr cofrestredig. Os yw gwarchodwr plant wedi'i gofrestru ar gyfer gofal gyda'r nos yn unig, dylai hyn fod yn addas at ddiben o'r fath.”

55. Gwnaeth nifer o awdurdodau lleol fynegi'r farn y byddai gwarchodwyr plant am ddarparu gwasanaeth ar ôl 6pm yn unig o bosibl, os oedd angen busnes a galw am y ddarpariaeth hon a byddai hyn o fudd i weithwyr sifft, y gwasanaethau brys ac ati. Gwnaethant hefyd gytuno y byddai angen cofrestru'r gwasanaeth hwn er mwyn i rieni fanteisio ar gymorth gan y Cynnig Gofal Plant, Gofal Plant Di-dreth, Credydau Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol ac ati. Os nad oedd rhieni yn gallu cael gafael ar warchodwyr plant cofrestredig, gall olygu eu bod o dan anfantais ariannol o gymharu â rhieni sy'n gweithio oriau mwy safonol, sydd â gwell mynediad, a mynediad haws, i ddarpariaeth gofal plant cofrestredig.

56. Yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd PACEY Cymru ei fod o'r farn y dylai fod mwy o gyfleoedd ar gael ar gyfer modelau darparu arloesol i gefnogi cynaliadwyedd a thwf gwarchodwyr plant a dewis rhieni drwy ddileu rhwystrau i hyrwyddo dulliau hyblyg o weithio er mwyn ateb y galw ymhlith rhieni i ran oriau annodweddiadol.

Gofal Dydd

Cwmpas y cais am dystiolaeth

57. Ceisiodd Llywodraeth Cymru farn y rhai y byddai unrhyw newidiadau a wneir i'r Gorchymyn yn effeithio arnynt, neu'r rhai sydd â diddordeb penodol ym meysydd gofal dydd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau polisi hyddysg o ran pennu cyfeiriad yn y dyfodol.

58. Roedd y cais am dystiolaeth yn canolbwyntio ar erthyglau 13 ac 15 o Ran 3 o'r Gorchymyn sy'n ymwneud â gofal dydd.

59. Mae **Rhan 3** o'r Gorchymyn yn nodi *'Nid yw person, sy'n darparu gofal i blant o dan 12 oed mewn mangre annomestig, yn darparu gofal dydd at ddibenion Mesur 2010 yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr erthyglau canlynol, 9 i 15.'*

60. Fel y nodir yng nghwestiynau'r cais am dystiolaeth ar dudalennau 8 i 10, gwahoddwyd pobl i fynegi barn ar erthygl 13 o Ran 3 o'r Gorchymyn sy'n ymwneud â darparu gofal dydd mewn gwesty, tŷ llety neu sefydliad tebyg arall ar gyfer plentyn sy'n aros yn y sefydliad hwnnw, ac erthygl 15 o Ran 3 o'r Gorchymyn sy'n ymwneud â hyfforddi neu ddysgu a ddarperir yn ystod gofal dydd a'r math o weithgareddau sydd wedi'u cynnwys.
61. Am fod gwestai, tai llety a sefydliadau tebyg weithiau'n cael eu defnyddio i letya teuluoedd dros dro, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried p'un a oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i erthygl 13 er mwyn adlewyrchu hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol, mewn rhai achosion, fod erthygl 15 o'r Gorchymyn yn caniatáu i rai lleoliadau gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ac yn ystod gwyliau weithredu heb gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru er mai eu prif ddiben yw darparu gofal plant. Gwahoddwyd pobl i fynegi barn ar y mater hwn hefyd.
62. Roedd y cais am dystiolaeth yn canolbwyntio ar yr erthyglau penodol hyn o'r Gorchymyn, am ei bod wedi'i nodi y gallai'r meysydd hyn gael budd o gael eu diweddarau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion presennol er mwyn galluogi'r sector gofal plant i weithredu mewn ffordd sydd mor effeithlon â phosibl tra hefyd yn darparu'r fframwaith gorau ar gyfer diogelu plant.

Erthygl 13


- (1) *Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal mewn gwesty, tŷ llety neu sefydliad cyffelyb arall, i blentyn sy'n aros yn y sefydliad hwnnw—*
(a) *pan fo'r ddarpariaeth yn digwydd yn unig rhwng 6 pm a 2 am; a*
(b) *pan na fo'r person, neu yn ôl y digwydd, unrhyw unigolyn sy'n cael ei gyflogi ganddo, sy'n darparu'r gofal yn gwneud hynny i fwy na dau gleient gwahanol ar yr un pryd.*
- (2) *At ddibenion is-baragraff (1)(b), ystyr "cleient" ("client") yw person y darperir gofal i blentyn ar ei gais (neu bersonau, ar eu cais ar y cyd).*

Crynodeb o'r Ymatebion i Erthygl 13

Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu bod angen diwygio'r cymal hwn? a **Chwestiwn 2:** Os felly, pam?

63. Cafwyd 16 o ymatebion i gwestiwn 1. O'r 16 o ymatebion, roedd 3 (19%) o'r farn nad oedd angen diwygio'r erthygl ac roedd 12 (75%) o'r farn bod angen diwygio'r erthygl, ac roedd 1 (6%) yn ansicr.

Ymatebion i Erthygl 13 – Cwestiwn 1



64. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai'r erthygl hon gael ei diwygio yn cytuno bod hyn o ganlyniad i faterion diogelu, ond roedd hefyd ychydig o ddryswch ynghylch p'un a oedd yr erthygl hon ond wedi'i hanelu at wasanaeth gwarchod plant (*babysitting*) mewn gwesty/tŷ llety.

“Oes– mae’n ddryslyd iawn – a yw’n cyfeirio at wasanaeth gwarchod pant (babysitting) mewn gwesty/tŷ llety neu ofal plant ad hoc? Yn fy marn i, byddai angen i ofal plant sy’n gweithredu am fwy na 2 awr gael ei gofrestru – sicrhau cysondeb â rheoliadau gofal plant eraill. Os bydd angen i wasanaethau gofal dydd gofrestru, yna dylai gwasanaeth gofal plant mewn gwesty neu dŷ llety gofrestru hefyd, fel arall, gallai fod yn anniogel i’r plant sy’n mynychu. Ym mha ffordd maent yn wahanol i ddarparu gofal plant sy’n gweithredu yn ystod oriau swyddfa arferol? Dylai diogelu plant fod yn hollbwysig. Mewn gwesty – os caiff y gofal ei ddarparu i un teulu yn ei ystafell yn y gwesty rhwng 6pm a 2am, caiff ei ystyried mwy fel gwasanaeth gwarchod plant mewn gwesty/tŷ llety (babysitting), ond os oedd y plant mewn darpariaeth grŵp i ffwrdd o ystafell y rhieni, yna caiff ei ystyried yn ofal plant a byddai trefniadau o ran cymarebau a chofrestru yn berthnasol. Dylai gwasanaeth gwarchod plant (babysitting) mewn gwesty/tŷ llety gael ei gofrestru o hyd a dylai staff gael eu recriwtio’n briodol”.

“Oes, mae angen i’r mangreoedd hyn a restrir ddeall y ddyletswydd ynghylch diogelu. Mae angen iddi fod yn glir bod staff sy’n gyfrifol am ofalu am blant wedi cael gwiriad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn meddu ar y cymwysterau priodol, e.e. Cymorth Cyntaf, Diogelu (Amddiffyn Plant) ac ati, er mwyn gofalu am y plant sy’n aros yn y fangre Mae diffiniad ‘aros’ yn wahanol i ‘fyw’ yn y cyfeiriad dros dro, mae angen mwy o eglurder ynghylch ystyr y rhain”.

65. Yn ei ymateb i’r cwestiwn hwn, cytunodd Cyngor Sir y Fflint fod angen diwygio’r erthygl hon er mwyn ei gwneud yn glir p’un a yw’r erthygl hon yn cyfeirio at wasanaeth gwarchod plant (*babysitting*) mewn gwesty/tŷ llety neu gyfleuster creche mewnol. Mae’n nodi, pe bai’r erthygl wedi’i llunio ar gyfer gwasanaeth gwarchod

plant (*babysitting*) mewn gwesty/tŷ llety, yna y byddai'r eithriadau yn addas fel y maent, ond os yw'r eithriad hefyd yn ymwneud â chyfleuster creche yn y fangre, lle byddai nifer o blant yn mynychu, yna y dylai cyfleuster creche fod yn ddarostyngedig i'r rheoliadau.

66. Nododd yr ymateb unigol (6%) a gafwyd a oedd yn ansicr o ran p'un a oedd angen diwygio'r erthygl nad oedd yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o'r math hwn o ddarpariaeth, ond os nad oes gan rieni unrhyw ddewis heblaw am gael gafael ar ofal plant yn y ffordd hon, os nad yw'r ddarpariaeth wedi'i chofrestru, ni all rhieni gael cymorth ariannol gyda'r costau gofal plant hyn.

Erthygl 15


- (1) *Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.*
- 2) *Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys—*
- (a) *os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu,*
(b) *os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).*
- (3) *Y mathau o weithgaredd yw—*
- (a) *chwaraeon;*
(b) *celfyddydau perfformio;*
(c) *celfyddydau a chrefftau;*
(ch) *cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;*
(d) *astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.*

Crynodeb o'r Ymatebion i Erthygl 15

Cwestiwn 1: Ydych chi'n credu y dylid diwygio'r cymal hwn? A **chwestiwn 2:** Os felly, sut? Er enghraifft, ydych chi'n credu y dylid diwygio'r gweithgareddau a restrir? Ydych chi'n credu bod angen i ni fod yn fwy penodol am y diffiniad o hyfforddiant neu addysgu?

67. Cafwyd 19 o ymatebion i gwestiwn 1. O'r 19 o ymatebion, roedd 4 (21%) o'r farn nad oedd angen diwygio'r erthygl ac roedd 15 (79%) o'r farn bod angen diwygio'r erthygl.

Ymatebion i Erthygl 15 – Cwestiwn 1



68. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd o'r farn nad oedd angen diwygio'r erthygl wedi cynnwys ymateb gan awdurdod lleol a oedd yn nodi pe bai angen i weithgareddau gofrestru fel gofal plant, byddai'n cyfyngu'n ddifrifol ar gyfleoedd plant i fanteisio ar y profiadau hyn.
69. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a oedd o'r farn bod angen diwygio'r erthygl hon yn pryderu bod yr eithriad hwn yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr gofal plant fel nad oedd angen iddynt gofrestru i ddarparu gofal plant. Gallant wneud hyn drwy ddatgan bod eu gwasanaeth gofal plant neu eu clwb ar ôl ysgol yn '*cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd*', fel y'i rhestrir ym mharagraff 3 o'r erthygl. Mae nifer fawr o ymatebwyr yn pryderu bod materion diogelu ynghlwm wrth yr erthygl hon gan ei bod yn caniatáu i ofal plant nad yw wedi'i reoleiddio gael ei ddarparu ar gyfer plant dros 5 oed am hyd at 4 awr y dydd.
70. Roedd hefyd nifer o ymatebwyr a oedd wedi nodi bod angen diwygio paragraff (2)(b) o'r erthygl oherwydd bod gormod o le i ddehongli ar hyn o bryd. Yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, awgrymodd Cyngor Sir Ceredigion y dylid defnyddio'r gair 'lleoliad' ym mharagraff (2)(b) fel bod yr eithriad yn darllen 'os yw'r lleoliad yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd'. Mae hefyd yn nodi os caiff y mathau o weithgaredd eu cynnal yn syth ar ôl ei gilydd, a bod y plentyn yn aros yn y lleoliad am un neu fwy o'r gweithgareddau, yna dylent gofrestru, e.e. dylai clwb gwaith cartref wedi'i ddilyn gan glwb chwaraeon yn yr un fangre gofrestru fel clwb ar ôl ysgol – yn enwedig os yw'r plentyn yn aros yn y lleoliad am gyfnod cyfan pob gweithgaredd, ac yn treulio mwy na dwy awr y diwrnod yno yn rheolaidd.
71. Yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru fod angen mwy o eglurder ynghylch y diffiniad o 'hyfforddi a dysgu' er mwyn sicrhau na chaiff gweithgareddau o'r fath eu defnyddio'n anfwriadol yn lle darpariaeth gofal plant rheoleiddiedig. Mae o'r farn bod nifer o leoliadau o'r fath yn gweithredu yn y ffordd honno ar hyn o bryd ac mae'r ffin rhwng "hyfforddi/dysgu" a gofal plant yn amwys.
72. Yn ei ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd Explore Learning ei fod o'r farn nad yw'r gweithgareddau a nodir a gofal dydd yn ddau beth gwahanol i'w gilydd, am fod Explore Learning yn cynnig dysgu i blant a phobl ifanc rhwng 4 a 18 oed, gan ofalu am eu diogelwch a'u lles corfforol, meddyliol ac emosiynol, fel rhan o'r gofal a

ddarperir. Mae'n nodi y byddai'r safon a lefel y gofal y mae'n eu darparu yn berthnasol i bob oedran ni waeth pa mor hir y mae'r plentyn yn aros, gan y gall fod yr un mor debygol bod angen diogelu'r plentyn neu ddiwallu anghenion meddygol pan fydd gydag Explore Learning am awr, nid dros 4 awr yn unig.

73. Cafodd pryder hefyd ei fynegi gan yr ymatebwyr ynghylch y cynnydd mewn gofal dydd nad yw wedi'i reoleiddio yn cael ei ddarparu ar gyfraddau is a oedd yn tansilio'r ddarpariaeth gofal plant. Mae Clybiau Plant Cymru yn cadarnhau ei fod yn annog ac yn cefnogi pob clwb i fod ar agor, wedi'i gofrestru ag AGC ac yn gynaliadwy drwy gydol gwyliau'r ysgol, gan gynnwys Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol cofrestredig o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae effaith darpariaeth anghofrestredig yn cael effaith andwyol ar hyn. Mae'n nodi ymhellach bod y nifer cynyddol o Glybiau Gweithgareddau yn ystod y Gwyliau anghofrestredig a gynhelir dros wyliau'r haf, gyda ffioedd is na gofal plant cofrestredig, yn arwain at lai o Glybiau Gofal Plant yn ystod y Gwyliau cofrestredig yn cael eu cynnal oherwydd cystadleuaeth a chanfyddiad rhieni ynghylch gwerth am arian. Ers mis Ebrill 2015, mae nifer y Clybiau Gwyliau cofrestredig wedi lleihau o 438 (12,674 o leoedd) i 416 (Rhagfyr 2018) o Glybiau Gwyliau (11,665 o leoedd), sef gostyngiad o dros 1000 o leoedd gofal plant. Yn sgil cyflwyno cynlluniau ariannol megis Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant, mae'n syndod nad oes cynnydd yn nifer y Clybiau Gwyliau. O fewn y 416 o Glybiau Gwyliau hyn, mae'n nodi nad yw nifer ohonynt fel arfer yn agor neu eu bod wedi newid eu diwrnodau/oriau agor yn sylweddol mewn llawer o achosion am fod teuluoedd yn defnyddio dewisiadau amgen nad ydynt wedi'u rheoleiddio ar gyfer gofal plant.
74. Cadarnhaodd rhai ymatebwyr na fyddant am weld clybiau gweithgareddau'n cael eu gor-reoleiddio gan y byddai hynny'n effeithio ar ddarpariaeth clybiau chwaraeon/clybiau theatr ac ati, a oedd ond yn darparu un gweithgaredd. Mae o'r farn bod gan sefydliadau sy'n cynnal y mathau hyn o weithgareddau weithdrefnau sydd wedi'u rheoleiddio'n dda er mwyn eu cynnal fel gweithgareddau arbenigol e.e. mae hyfforddwyr chwaraeon wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac maent yn meddu ar gymwysterau eraill ac ati, er mwyn sicrhau y caiff y plant eu diogelu.

Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ar Erthyglau ychwanegol o'r Gorchymyn

75. Roedd y cais am dystiolaeth yn canolbwyntio ar Erthyglau 3 a 6 o Ran 2 o'r Gorchymyn ac Erthygl 13 o Ran 3 o'r Gorchymyn ond cafodd rhanddeiliaid hefyd eu gwahodd i rannu eu sylwadau ar unrhyw Erthyglau eraill yn y Gorchymyn y mae angen eu diwygio yn eu barn nhw.
76. O'r 20 o bobl a ymatebodd i'r cais am dystiolaeth, roedd 7 ohonynt hefyd wedi rhoi sylwadau ar Erthygl 4 o Ran 2 o'r gorchymyn sy'n ymwneud â gwarchod plant ac Erthyglau 9 a 10 sy'n ymwneud â gofal dydd.

Erthygl 4

Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r person yn gofalu am blant yn fwy na dwy awr.

Crynodeb o'r sylwadau ar erthygl 4

77. Mae PACEY Cymru o'r farn bod angen adolygu Erthygl 4 o'r Gorchymyn yn sgil y ffordd y caiff ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau gwarchod plant anghofrestredig. Byddai'n dadlau y dylai unrhyw ddarpariaeth a gaiff ei chynnal er mwyn gwobr, p'un a yw'n llai na dwy awr neu'n fwy, ddod o dan y diffiniad o warchodwr plant a dylid ei chofrestru, ei rheoleiddio a'i harolygu. Mae'n nodi ei fod yn ymwybodol o ddarpariaeth gwarchod plant sydd wedi parhau i gael ei chynnal ar ôl dadgofrestriad neu waharddiad gan AGC drwy ddefnyddio'r 'rheol dwy awr' ac yn darparu gofal am 1 awr a 59 munud. Ym marn PACEY Cymru nid yw hyn er budd pennaf y plant na'r teuluoedd ac mae'n peryglu plant o bosibl.
78. Mae PACEY Cymru yn nodi ei fod yn deall bod angen dull cytbwys a chymesur o weithredu ond mae o'r farn y dylai lles y plentyn fod yn hollbwysig. Mae PACEY Cymru yn deall y gall fod angen ystyried yr erthygl hon ar y cyd ag Erthygl 10 o'r Gorchymyn. Fodd bynnag, gall gwarchodwr plant anghofrestredig sy'n gweithio ar ei ben ei hun fod mewn categori risg uwch o bosibl.
79. Mae Blynnyddoedd Cynnar Cymru yn nodi ei fod wedi gweld cefnogaeth gref o blaid dileu'r eithriad sy'n caniatáu i wasanaethau gwarchod plant a gofal plant gael eu darparu heb eu rheoleiddio os na chaiff y gwasanaeth ei ddarparu am fwy na dwy awr mewn diwrnod. Oherwydd yr eithriad hwn, mae hefyd yn amhosibl i wasanaethau gofal plant, sydd ond yn gallu gweithredu am lai na dwy awr y dydd, gael eu cofrestru a'u rheoleiddio.

Erthygl 9

Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal gan y person hwnnw yn y fangre o dan sylw ar nifer llai na 6 o ddiwrnodau mewn unrhyw flwyddyn galendr, a bod y person hwnnw wedi hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen cyn defnyddio'r fangre o dan sylw am y tro cyntaf yn y flwyddyn honno.

Crynodeb o'r sylwadau ar erthygl 9

80. Mae Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru yn nodi nad oedd nifer o eglwysi lleol sydd wedi trefnu clybiau gwyliau achlysurol a gweithgareddau tebyg yn ymwybodol o'r gofyniad i roi rhybudd cyn defnyddio eu mangreoedd am y tro cyntaf bob blwyddyn, hyd yn oed os caiff y clwb ei gynnal am lai na 6 diwrnod y flwyddyn. Mae o'r farn bod angen naill ai dileu'r gofyniad hwn neu roi mwy o gyhoeddusrwydd iddo er mwyn osgoi achosion anfwriadol o dor-cyfraith.

Erthygl 10

Nid yw person yn darparu gofal dydd os nad yw'r cyfnod neu gyfanswm y cyfnodau pan ofelir am blant mewn mangre, yn ystod unrhyw un diwrnod, yn hwy na dwy awr.

Crynodeb o'r sylwadau ar erthygl 10

81. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn nodi, o ganlyniad i'r eithriadau presennol o dan Erthygl 10 ac Erthygl 15 (2)(b) o Ran 3 o'r Gorchymyn, fod gofal y tu allan i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn rheolaidd mewn ysgolion, heb gofrestru fel clybiau ar ôl ysgol.
82. Mae o'r farn, os yw lleoliad yn gweithredu fel un o'r 'categoriâu penodol' yna na ddylai fod terfyn o ran isafswm yr oriau e.e. llai na 2 awr ac na ddylid rhoi'r dewis rhwng cofrestru a pheidio â chofrestru.
83. Os yw'r plentyn yn aros yn y fangre - neu mewn mangre a drefnir gan yr ysgol - am unrhyw gyfnod ar ôl 'diwedd ysgol' swyddogol, yna dylid ystyried hyn yn 'ddarpariaeth ar ôl ysgol' - am fod rhieni yn talu am y ddarpariaeth hon ac nid yw'n cael ei ariannu gan addysg. Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai unrhyw ddarpariaeth a gynhelir mewn ysgol, hyd yn oed os yw'n llai na dwy awr, gael ei chofrestru.
84. Mae Cyngor Sir y Fflint yn nodi, ni waeth sawl awr o ofal plant sy'n cael ei darparu, y dylai lleoliad wneud pob ymdrech i gofrestru er mwyn sicrhau gweithdrefnau diogelu a llywodraethu cadarn. Ar gyfer y lleoliadau hynny sy'n gweithredu am lai na dwy awr, gall fod lle i gyflwyno gweithdrefn gofrestru sy'n cymryd llai o amser er mwyn sicrhau diogelwch plant a hefyd annog y lleoliad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar y rheoliadau.
85. Mae Chwarae Cymru o'r farn bod ymgynghoriadau â'r sector gwaith chwarae yn y gorffennol wedi dangos bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn teimlo y dylid dileu'r eithriad dwy awr ac, yn yr un modd, yr eithriad chwe diwrnod y flwyddyn. Fodd bynnag, bob tro y gwnaed sylwadau o'r fath roedd cafeat bod angen gwneud gwaith sylweddol er mwyn pennu dull cymesur, ysgafnach o reoleiddio ac arolygu sy'n canolbwyntio ar ddiogelu. Dylai dull gweithredu o'r fath fod yn seiliedig ar egwyddorion addasrwydd staff (nid o reidrwydd cymwysterau) a diogelu'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn hytrach na sicrhau ansawdd, sef cylch gwaith cyrff llywodraethu a sefydliadau cenedlaethol, y gellir dadlau. Dylid nodi nad ydym yn deall canlyniadau'r estyniad diweddar i ystod oedran uchaf y rheoliad o 7 i 12 yn llawn eto, yn enwedig mewn perthynas â chlybiau ieuenctid iau a'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol.
86. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn bod rhai grwpiau wedi camfanteisio ar yr eithriad "llai na dwy awr" er mwyn osgoi cofrestru. Dylid ailwerthuso hyn ar gyfer darpariaeth gofal plant. Mae anhawster yma ynghylch darpariaeth chwarae ac os caiff diwygiadau eu gwneud i'r rheol "llai na dwy awr", byddai angen ystyried cymesuredd yn ofalus. Byddai hefyd oblygiadau o ran adnoddau i'r arolygiaethau perthnasol

CASGLIADAU

Gwarchod Plant

87. Gellir crynhoi canfyddiadau'r cais am dystiolaeth mewn perthynas ag erthyglau 3, 4 a 6 o'r Gorchymyn (sy'n ymwneud â "gwarchod plant") fel a ganlyn:

Erthygl 3

(1) *Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw—*

(i) yn rhiant neu'n berthynas i'r plentyn; neu,

(ii) yn rhiant maeth ar gyfer y plentyn.

(2) *Yn yr erthygl hon, mae "rhiant maeth" ("foster parent") yn cynnwys person y lleolwyd plentyn gydag ef, gan awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu berson sy'n maethu plentyn yn breifat.*

88. Nod yr eithriad hwn oedd caniatáu i rieni a pherthnasau ddarparu gofal plant mewn perthynas â phlant a oedd yn perthyn iddynt heb y gofyniad i gofrestru fel gwarchodwr plant. Yn nyddiau cynnar y Cynnig Gofal Plant, tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru at y ffaith mai un o ganlyniadau anfwriadol hyn oedd y byddai'n eithrio gwarchodwyr plant cofrestredig rhag cael cyllid cyhoeddus ar gyfer darparu gofal plant i blant a oedd yn perthyn iddynt.
89. Mae'r mwyaf llethol o'r ymatebwyr i'r cais hwn am dystiolaeth yn cydnabod ac yn cytuno â'r diwygiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud eisoes mewn perthynas â'r erthygl hon er mwyn galluogi gwarchodwyr plant cofrestredig i ddarparu gofal i blant sy'n perthyn iddynt, ar yr amod na chaiff y gofal hwnnw ei ddarparu yng nghyfeiriad cartref y plentyn. Cafodd y newid i'r safle polisi hwn ei gyfleu i randdeiliaid yn Y Cynnig Gofal Plant – Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n Weithredwyr Cynnar a gafodd eu cyhoeddi ym mis Medi 2018, ond nid yw'r Gorchymyn ei hun wedi'i ddiweddarau eto er mwyn adlewyrchu'r newid polisi hwn.
90. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurder ynghylch y term 'perthynas'. Ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn yn disgrifio 'perthynas' fel a ganlynol "*taid, nain, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (naill ai o waed cyfan neu o hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) neu lys-riant*".
91. Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfyngiad presennol ar warchodwyr plant cofrestredig sy'n golygu nad ydynt yn cael eu hystyried yn warchodwr plant, ac felly gallant gael cyllid cyhoeddus mewn perthynas â'u plentyn eu hunain.

Erthygl 4

Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r person yn gofalu am blant yn fwy na dwy awr.

92. Cafodd yr eithriad hwn ei gynnwys yn y Gorchymyn gan yr ystyrir ar y pryd ei bod yn anghymesur i wasanaethau gofal plant gofrestru darpariaeth a oedd yn gweithredu am lai na 2 awr.
93. Roedd y sylwadau a gafwyd ar yr eithriad hwn yn dangos bod y sector gofal plant yn gadarn yn erbyn cynnwys yr eithriad hwn yn y Gorchymyn. Maent o'r farn ei bod yn cael ei ddefnyddio'n fwriadol fel 'bwlch' i ddarparu gofal plant anghofrestredig a allai beryglu plant o bosibl. Mae ymatebwyr yn cydnabod bod angen dull cytbwys a chymesur o ddarparu gofal plant ond mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn cytuno bod yr eithriad hwn yn arwain at lefelau annerbyniol o faterion diogelu i blant.

Erthygl 6

Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw yn gofalu am y plentyn am gyfnod nad yw'n cychwyn tan ar ôl 6pm ar unrhyw un diwrnod ac sy'n dod i ben cyn 2am y diwrnod canlynol.

94. Mae'r eithriad hwn yn cydnabod bod gwarchodwyr plant yn y cartref (*babysitters*) yn debygol o ddarparu gofal plant rhwng 6pm a 2am, ac na fyddem yn disgwyl i warchodwyr plant y catref (*babysitters*) gofrestru fel gwarchodwr plant (*child minder*) er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn.
95. Yn anffodus, mae'r eithriad hwn wedi arwain at y canlyniad anfwriadol o eithrio gwarchodwyr plant rhag cofrestru i ddarparu gofal plant rhwng yr oriau hyn yn unig ac yn atal rhieni rhag hawlio cyllid gan y Llywodraeth i helpu gyda chostau gofal plant o dan yr amgylchiadau hyn.
96. Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gryf y dylid diwygio'r eithriad hwn fel y gall gwarchodwr plant, sy'n dewis darparu gwasanaeth gofal plant rhwng 6pm a 2am yn unig, gofrestru i wneud hynny.
97. Nid yn unig y byddai diwygio'r erthygl hon yn galluogi rhieni sy'n gweithio sifftiau gyda'r nos/yn ystod y nos i gael gafael ar gyllid cyhoeddus ar gyfer gofal plant, mae nifer o ymatebwyr yn dadlau y byddai hefyd yn helpu i sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth gan y dylai unrhyw warchodwr plant sy'n gofalu am blentyn yng nghyfeiriad y gwarchodwr plant gael ei reoleiddio a'i arolygu.

Gofal Dydd

98. Gellir crynhoi canfyddiadau'r cais am dystiolaeth mewn perthynas ag erthyglau 9, 10, 13 ac 15 o'r Gorchymyn (sy'n ymwneud â "gofal dydd") fel a ganlyn:

Erthygl 9

Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal gan y person hwnnw yn y fangre o dan sylw ar nifer llai na 6 o ddiwrnodau mewn unrhyw flwyddyn galendr, a bod y person hwnnw wedi hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen cyn defnyddio'r fangre o dan sylw am y tro cyntaf yn y flwyddyn honno.

99. Cafodd yr eithriad hwn ei gynnwys yn y Gorchymyn gan yr ystyrir ar y pryd ei bod yn anghymesur i ddarparwr gofal plant gofrestru darpariaeth a oedd yn gweithredu am lai na 6 diwrnod y flwyddyn.
100. Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru oedd yr unig ymatebwr i roi sylwadau ar yr eithriad hwn. Mae wedi ymateb ar ran eglwysi yng Nghymru sy'n trefnu clybiau gwyliau achlysurol a gweithgareddau tebyg. Mae o'r farn y dylai'r eithriad hwn naill ai gael ei ddileu neu y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddo er mwyn osgoi achosion anfwriadol o dor-cyfraith.

Erthygl 10

Nid yw person yn darparu gofal dydd os nad yw'r cyfnod neu gyfanswm y cyfnodau pan ofelir am blant mewn mangre, yn ystod unrhyw un diwrnod, yn hwy na dwy awr.

101. Mae'r erthygl hon yn debyg i erthygl 4 o ran 2 o'r Gorchymyn sy'n cyfeirio at warchodwyr plant. Felly, mae'r safle a nodwyd ym mharagraffau 95 i 96 hefyd yn berthnasol i erthygl 10.

Erthygl 13

(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal mewn gwesty, tŷ llety neu sefydliad cyffelyb arall, i blentyn sy'n aros yn y sefydliad hwnnw—

(a) pan fo'r ddarpariaeth yn digwydd yn unig rhwng 6 pm a 2 am; a

(b) pan na fo'r person, neu yn ôl y digwydd, unrhyw unigolyn sy'n cael ei gyflogi ganddo, sy'n darparu'r gofal yn gwneud hynny i fwy na dau gleient gwahanol ar yr un pryd.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), ystyr "cleient" ("client") yw person y darperir gofal i blentyn ar ei gais (neu bersonau, ar eu cais ar y cyd).

102. Nod yr eithriad hwn oedd eithrio'r oriau rhwng 6pm a 2am ac felly ddiwallu anghenion rhieni sy'n defnyddio gwasanaethau gwarchodwyr plant (*babysitters*) mewn llety dros nos megis tai llety neu westai.
103. Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai'r erthygl hon gael ei diwygio yn cytuno bod hyn o ganlyniad i faterion diogelu, ond roedd hefyd ychydig o ddryswch ynghylch p'un a oedd yr erthygl hon ond wedi'i hanelu at wasanaethau gwarchod plant (*babysitting*) mewn gwesty/tŷ llety ac nid yw'n berthnasol i sefyllfaoedd lle mae plant yn cael gofal mewn darpariaeth grŵp i ffwrdd o ystafell y rhieni.

Erthygl 15

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.

2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys—

(a) os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu,
(b) os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).

(3) Y mathau o weithgaredd yw—

(a) chwaraeon;

(b) celfyddydau perfformio;

(c) celfyddydau a chrefftau;

(ch) cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;

(d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.

104. Nod yr eithriad hwn yw caniatáu i leoliadau sy'n darparu hyfforddi neu ddysgu mewn gweithgareddau chwaraeon neu ddiwylliannol, mewn mangre annomestig, pan mai prif ddiben unrhyw ddarpariaeth chwaraeon neu ddiwylliannol yw darparu hyfforddiant neu ddysgu, ac mae unrhyw ofal a ddarperir yn gysylltiedig â hyn, gael eu heithrio rhag cofrestru.

105. Ystyriwyd ei bod yn anghymesur gosod baich y fframwaith rheoleiddio gofal plant ar ddarpariaeth o'r fath, lle y mae gofal plant yn rhan gysylltiedig o'i phrif ddiben. Ystyriwyd bod gwahaniaeth rhwng hyfforddi/dysgu dynodedig a darpariaeth sydd, yn y bôn yn seiliedig ar ofal plant, ac felly dylid eu trin yn wahanol at ddibenion rheoleiddiol.

106. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd wedi gwneud sylwadau yn ystod y cais am dystiolaeth wedi mynegi pryder ynghylch y ffaith bod yr eithriad hwn yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr er mwyn osgoi cofrestru i ddarparu gofal plant. Gallant wneud hyn drwy ddatgan bod eu gwasanaeth gofal plant neu eu clwb ar ôl ysgol yn 'cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd', fel y'i rhestrir ym mharagraff 3 o'r erthygl. Mae nifer fawr o ymatebwyr yn poeni bod materion diogelu yn gysylltiedig â'r erthygl hon gan ei bod yn caniatáu i ofal plant nad yw wedi'i reoleiddio gael ei ddarparu ar gyfer plant dros 5 oed am hyd at 4 awr y dydd.

107. Mae'n werth nodi yn y cyd-destun hwn fod y canllawiau ar ddiogelu ac amddiffyn plant wedi'u pennu'n glir gan Lywodraeth Cymru yn *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o Dan Ddeddf Plant 2004*. Mae hyn yn pennu rolau a chyfrifoldebau asiantaethau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, ac mae'n berthnasol i'r holl wasanaethau a ddarperir iddynt, ni waeth p'un a yw darpariaeth o'r fath yn destun rheoleiddio o fewn cwrpas Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd neu fel arall. Felly, o ran darpariaeth sydd wedi'i heithrio rhag cael ei rheoleiddio yn unol â darpariaethau Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, mae rhaid diogelu lles y plant o hyd (fel yr amlinellir yn y canllawiau *Gweithio Gyda'n Gilydd*), ac na fyddai'n cael ei beryglu am ei bod wedi'i heithrio felly. Mae'r eithriad ond yn cydnabod nad yw'n briodol rheoleiddio pob math o ddarpariaeth gofal plant, neu ddarpariaeth sy'n digwydd bod yn darparu elfen o ofal plant yn ei chylch gwaith, fel gofal plant ffurfiol.

108. Yng ngoleuni'r casgliadau y daethpwyd iddynt ym mharagraffau 87 i 107, mae argymhellion ar y camau nesaf arfaethedig wedi'u datblygu ac wedi'u nodi ym mharagraff 4 o'r ddogfen hon.

RHESTR O RANDDEILIAID

- Plant yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru)
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Comisiynydd Plant Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Mudiad Meithrin
- Menter Caerffili
- Comisiynydd y Gymraeg
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Clybiau Plant Cymru
- Estyn
- Chwarae Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Dechrau'n Deg Cymru Gyfan
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

Caiff gwasanaethau gwarchod plant, gofal dydd a darpariaeth chwarae i blant hyd at 12 oed eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae'n ofynnol i warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd gofrestru fel y'i nodir yn Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016, oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag y broses gofrestru hon drwy fodloni eithriad yng Ngorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ('y Gorchymyn'). Caiff yr eithriadau'n ymwneud â gwarchod plant a gofal dydd eu crynhoi isod:

Gwarchod plant

Rhan 2

Erthygl 3

(1) Nid yw person sy'n gofalu am blentyn yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw'r person hwnnw —

- (i) yn rhiant neu'n berthynas i'r plentyn; neu,
- (ii) yn rhiant maeth ar gyfer y plentyn.

(2) Yn yr erthygl hon, mae "rhiant maeth" ("foster parent") yn cynnwys person y lleolwyd plentyn gydag ef, gan awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, neu berson sy'n maethu plentyn yn breifat.

Erthygl 4

Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r person yn gofalu am blant yn fwy na dwy awr.

Erthygl 5

(1) Pan fo person sy'n cael ei gyflogi —

- (a) (i) i ofalu am blentyn neu grŵp o sibliogiaid ar gyfer rhieni ("y rhieni cyntaf"), neu
- (ii) i ofalu am ail blentyn neu grŵp o sibliogiaid ar gyfer rhieni ("yr ail rieni") yn ychwanegol at y plant y gofelir amdanynt ar gyfer y rhieni cyntaf, a
- (b) yn gofalu am y plant o dan sylw yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref neu gartrefi'r rhieni cyntaf neu'r ail rieni,

nid yw'n gweithredu fel gwarchodwr plant.

(2) Yn yr erthygl hon—

- (a) ystyr "cael ei gyflogi" ("*employed*") yw cael ei gyflogi naill ai o dan gontract cyflogaeth neu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau;

(b) mae “rhiant” (“*parent*”) yn cynnwys person sy’n berthynas i’r plentyn;

(c) mae “grŵp o sibliogiaid” (“*sibling group*”) yn cynnwys hanner-brodyr a hanner-chwiorydd.

Erthygl 6

Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw’r person hwnnw yn gofalu am y plentyn am gyfnod nad yw’n cychwyn tan ar ôl 6pm ar unrhyw un diwrnod ac sy’n dod i ben cyn 2am y diwrnod canlynol.

Erthygl 7

Nid yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant os yw’r person hwnnw yn gofalu am blentyn neu blant fel rhan o’r broses o fod yn gyfaill i rieni’r plentyn hwnnw neu’r plant hynny ac os na chaiff unrhyw daliad ei wneud am y gwasanaeth.

(2) Yn yr erthygl hon ystyr “taliad” (“*payment*”) yw taliad o arian neu’r hyn sy’n werth arian ond nad yw’n cynnwys darparu nwyddau neu wasanaethau.

Gofal dydd

Rhan 3

Erthygl 9

Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal gan y person hwnnw yn y fangre o dan sylw ar nifer llai na 6 o ddiwrnodau mewn unrhyw flwyddyn galendr, a bod y person hwnnw wedi hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen cyn defnyddio’r fangre o dan sylw am y tro cyntaf yn y flwyddyn honno.

Erthygl 10

Nid yw person yn darparu gofal dydd os nad yw’r cyfnod neu gyfanswm y cyfnodau pan ofelir am blant mewn mangre, yn ystod unrhyw un diwrnod, yn hwy na dwy awr.

Erthygl 11

Nid yw person yn darparu gofal dydd os darperir y gofal i blentyn y gofelir amdano mewn cartref plant y cofrestrwyd person mewn perthynas ag ef o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Erthygl 12

Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal i blentyn a letyir mewn—

- (a) cartref gofal,
- (b) ysbyty fel claf, neu
- (c) canolfan breswyl i deuluoedd,

yn rhan o weithgarwch y sefydliad o dan sylw, naill ai gan ddarparwr y sefydliad yn uniongyrchol neu gan berson a gyflogir ar ran y darparwr.

Erthygl 13

(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal mewn gwesty, tŷ llety neu sefydliad cyffelyb arall, i blentyn sy'n aros yn y sefydliad hwnnw—

- (a) pan fo'r ddarpariaeth yn digwydd yn unig rhwng 6 pm a 2 am; a
- (b) pan na fo'r person, neu yn ôl y digwydd, unrhyw unigolyn sy'n cael ei gyflogi ganddo, sy'n darparu'r gofal yn gwneud hynny i fwy na dau gleient gwahanol ar yr un pryd.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(b), ystyr "cleient" ("client") yw person y darperir gofal i blentyn ar ei gais (neu bersonau, ar eu cais ar y cyd).

Erthygl 14

(1) Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal i blant mewn ysgol, a'r ddarpariaeth o ofal yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â darparu addysg.

(2) yn yr erthygl hon ystyr "ysgol" ("*school*") yw—

- (i) ysgol a gynhelir o fewn yr ystyr a roddir i "maintained school" yn adran 39 o Ddeddf Addysg 2002(1);
- (ii) ysgol annibynnol; neu
- (iii) ysgol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996(2) (cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir).

Erthygl 15

(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir iddo yn digwydd yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddi neu'r dysgu hwnnw.

(2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys —

- (a) os yw'r plant islaw 5 oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu—
- (b) os yw'r person yn cynnig hyfforddi neu ddysgu mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).

(3) Y mathau o weithgaredd yw —

- (a) chwaraeon;
- (b) celfyddydau perfformio;
- (c) celfyddydau a chrefftau;
- (ch) cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;
- (d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.